# Pobl eraill sy'n byw yn eich cartref --- Yr effaith ar eich budd-daliad

## Cyflwyniad

Os oes unrhyw oedolion yn byw gyda chi heblaw am eich cymar, yn y rhan fwyaf o achosion, mi fydd yn effeithio ar faint o Fudd-dal Tai a / neu Ostyngiad Treth y Cyngor y byddwch yn ei dderbyn.

Mae'r rhan fwyaf o oedolion yn cael eu trin fel pobl nad ydynt yn ddibynyddion, fodd bynnag, os nad ydynt yn perthyn i chi ac os ydych yn rhentu eich eiddo'n fasnachol gellir eu trin fel naill ai 'lletywyr' neu 'is-denantiaid.

Mae'r daflen hon wedi'i bwriadu i fod yn ganllaw cyffredinol. Mae amgylchiadau pobl yn wahanol, felly i gael cyngor unigol a mwy manwl, cysylltwch â ni.

## Beth yw person nad yw'n ddibynnydd?

Mae person nad yw'n ddibynnydd yn berson sydd dros 18 neu sy'n byw yn eich cartref ar sail anfasnachol. Yn nodweddiadol gall fod yn fab neu ferch sydd wedi tyfu i fyny, perthynas oedrannus neu ffrind.

## A fydd hyn yn effeithio ar fy mudd-dal?

Os oes person nad yw'n ddibynnydd yn byw yn eich cartref, neu os bydd person nad yw'n ddibynnydd yn symud i mewn i'ch cartref, efallai y bydd rhaid i ni dynnu swm penodol oddi ar eich budd-dal. Gelwir hyn yn ddidyniad person nad yw'n ddibynnydd.

## Sut y cyfrifir y didyniad?

Mae swm y didyniad yn seiliedig ar incwm ac amgylchiadau'r person nad yw'n ddibynnydd. Mae hyn yn adlewyrchu cyfraniad tybiedig y person nad yw'n ddibynnydd, at gostau tai yr hawliwr.

Mae'r didyniad yn berthnasol ni wnaeth a yw'r person nad yw'n ddibynnydd yn gwneud cyfraniad at y cartref neu beidio. Y ffactorau pwysig i'w hystyried yw

- P'un a yw'r person nad yw'n ddibynnydd yn gweithio dros 16 awr yr wythnos (gwaith am dâl); ac
- Os ydynt, bydd y tâl yn dibynnu ar lefel cyfanswm eu hincwm gros; - Po uchaf yw'r enillion, y mwyaf fydd y didyniad.

Mae cyplau priod / di-briod / partneriaid sifil neu gyplau o'r un rhyw yn denu un didyniad 'person nad yw'n ddibynnydd' yn unig yn seiliedig ar gyfanswm eu hincwm.

Os bydd person nad yw'n ddibynnydd yn byw gyda dau berthynas (nid cwpl) gellir rhannu'r didyniad rhyngddynt.

**Budd-dal Tai - Didyniadau Pobl Nad Ydynt yn Ddibynyddion (effeithiol o 01.04.2023)**

| Gweithio am dâl (dros 16 awr)- yn cynnwys y rheini sy'n derbyn Credyd Cynhwysol ac yn gweithio | |
|---|---|
| Incwm gros cyn didyniadau nid incwm net | **Budd-dal Tai** |
| Mwy na £511.00 | £116.75 |
| £410.00 - £510.99 | £106.35 |
| £308.00 - £409.99 | £93.40 |
| £236.00 - £307.99 | £57.10 |
| £162.00 - £235.99 | £41.60 |
| Llai na £162.00 | £18.10 |
| **Eraill ac eithrio'r rheini sy'n derbyn Lwfans Cyflogaeth a Chymorth** | |
| Yn 25 oed neu'n hŷn neu dan 25 ac yn derbyn Cymhorthdal Incwm/Incwm Ceisio Gwaith ar sail Credyd Cynhwysol ac nid yn gweithio | £18.10 |
| Eraill- Yn 18 oed neu'n hŷn nad ydynt yn gweithio am dâl | £18.10 |
| Dan 25 ac yn derbyn Cymhorthdal Incwm /Incwm Ceisio Gwaith yn seiliedig ar Gredyd Cynhwysol ac nid yn gweithio | Dim |
| **Y sawl sy'n derbyn Lwfans Cyflogaeth a Chymorth (LCCh)** | |
| Derbyn LCCh (C) unrhyw oed | £18.10 |
| **Derbyn LCCh (IR)**<br>Cyfnod asesu<br>Dan 25<br>Dros 25<br>**Prif Gyfnod**<br>Ymhob achos yn cynnwys dan 25 oed | <br><br>Dim<br>£18.10<br><br>£18.10 |
| **Pensiynwyr** | |
| Derbyn pensiwn credyd | Dim |
| Pensiynwyr eraill | £18.10 |
| Pensiynwyr sy'n gweithio dros 16 awr | Dibynnu ar lefel yr enillion |

## Gostyngiad Treth y Cyngor- Didyniadau Pobl Nad Ydynt yn Ddibynyddion (effeithiol o 01.04.2023)

| Incwm gros cyn didyniadau nid incwm net | **Gostyngiad Treth y Cyngor** |
|---|---|
| Mwy na £511.00 | £16.40 |
| £410.00 - £510.99 | £13.70 |
| £236.00 - £409.99 | £10.90 |
| Llai na £236.00 | £5.45 |
| Yn 25 oed neu'n hŷn neu dan 25 ac yn derbyn Cymhorthdal Incwm/Incwm Ceisio Gwaith ar sail Credyd Cynhwysol ac nid yn gweithio | Dim |
| Eraill- Yn 18 oed neu'n hŷn nad ydynt yn gweithio am dâl | £5.45 |
| Derbyn LCCh (C) unrhyw oed | £5.45 |
| **Derbyn LCCh (IR)**<br>Cyfnod asesu<br>Dan 25<br>Dros 25<br>**Prif Gyfnod**<br>Ymhob achos yn cynnwys dan 25 oed | <br><br>Dim<br>Dim<br><br>Dim |
| Derbyn pensiwn credyd | Dim |
| Pensiynwyr eraill | £5.45 |
| Pensiynwyr sy'n gweithio dros 16 awr | Dibynnu ar lefel yr enillion |

## A oes unrhyw achosion lle na wneir unrhyw ddidyniad?

- **Oes**. Ni fyddem yn gwneud didyniad person nad yw'n ddibynnydd pe bai

- chi neu eich cymar yn derbyn Lwfans Gweini;
- chi neu eich cymar wedi eich cofrestru'n ddall;
- chi neu eich cymar yn derbyn elfen ofal y Lwfans Byw i'r Anabl
- chi neu eich cymar yn derbyn cyfradd safonol neu uwch o'r elfen Byw'n Ddyddiol y Taliadau Annibyniaeth Bersonol;
- eich person nad yw'n ddibynnydd yn yr ysbyty am 52 wythnos neu fwy;
- eich person nad yw'n ddibynnydd yn y carchar neu'n byw rhywle arall fel arfer;
- eich person nad yw'n ddibynnydd yn derbyn credyd pensiwn;
- eich person nad yw'n ddibynnydd, dan 18 oed;

- eich person nad yw'n ddibynnydd dan 25 oed ac yn derbyn Cymhorthdal Incwm neu Lwfans Ceisio Gwaith (seiliedig ar incwm);
- eich person nad yw'n ddibynnydd yn fyfyriwr llawn amser (heblaw am yn ystod gwyliau'r haf os ydynt yn gweithio dros 16 awr yr wythnos);

Nodwch nad yw'r rhestr hon yn gyflawn.

**Noder os gwelwch yn dda**- Os ydych yn derbyn Budd-dal Tai ac os ydych chi neu eich cymar yn 65 oed neu'n hŷn gellir oedi'r didyniad am 26 wythnos os

- bydd person nad yw'n ddibynnydd yn symud i mewn i'ch cartref neu
- os yw eu hamgylchiadau yn newid, a hynny'n arwain at ddidyniad uwch ar gyfer person nad yw'n ddibynnydd.

## Beth os nad yw fy mherson nad yw'n ddibynnydd yn cyfrannu at y cartref?

Mae'n rhaid i'r Cyngor wneud y didyniad ac ni all amrywio'r symiau yn ôl amgylchiadau unigol. Felly, dylech gymryd y swm y didyniad hwn i ystyriaeth a thrafod hyn gyda'r person nad yw'n ddibynnydd.

## A oes angen i mi gyflwyno gwybodaeth?

Oes, byddwn yn gofyn am wybodaeth am bobl nad ydynt yn ddibynyddion ar y ffurflen hawlio budd-daliadau a bydd angen prawf o'u hincwm ee slipiau cyflog.

Os na fyddant yn rhoi'r wybodaeth hon i chi, gall ef neu hi ei hanfon yn uniongyrchol atom ni.

Fel arall, os ydynt yn derbyn budd-daliadau'r wladwriaeth ac yn rhoi caniatâd ysgrifenedig i ni wneud hynny, gallwn wirio eu hincwm gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau. (Mae angen rhif Yswiriant Gwladol y person nad yw'n ddibynnydd arnom er mwyn gwneud hyn).

Os ydynt yn methu â rhoi tystiolaeth byddwn yn gwneud y didyniad priodol yn seiliedig ar y dystiolaeth sydd ar gael.
Mewn rhai achosion, efallai y bydd angen y didyniad uchaf.

## A oes angen i mi roi gwybod i chi os bydd amgylchiadau fy mherson nad yw'n ddibynnydd yn newid?

**Oes**- dylech ddweud wrthym cyn gynted ag y bo modd os yw amgylchiadau eich person nad yw'n ddibynnydd yn newid oherwydd fe allai hyn leihau neu gynyddu'r didyniad yr ydym yn ei wneud. Mae angen i ni wybod os

Yw person nad yw'n ddibynnydd yn symud i mewn i'ch cartref neu'n gadael eich cartref; neu

- Yw incwm neu amgylchiadau y person nad yw'n ddibynnydd yn newid ee os ydynt yn cael codiad cyflog neu os byddant yn colli swydd.

Mae'n bwysig eich bod yn rhoi manylion y newid, y dyddiad y digwyddodd y newid a thystiolaeth lle bo hynny'n briodol.

## Lletywyr

Dyma bobl sydd wedi symud i mewn gyda chi sy'n talu am fwyd a llety gyda rhywfaint o fwyd parod, ac nid ydynt yn blant sy'n oedolion, perthnasau neu ffrindiau.

Ni wneir didyniadau ar gyfer preswylwyr a lletywyr. Yn lle hynny, mae ychydig o'r rhent yr ydych yn ei dderbyn ganddynt bob wythnos yn cael ei ychwanegu at eich incwm. Bydd yr £20.00 cyntaf yr

wythnos yn cael ei anwybyddu, ynghyd â hanner y gweddill. Er enghraifft, os ydych yn derbyn rhent o £50.00 yr wythnos,  £15.00 yn unig fydd yn cael ei gyfrif fel yr incwm at ddibenion budd-daliadau (£50.00 - £20.00 wedi'i rannu â 2 = £15.00).

Yr un yw'r rheol o ran budd-daliadau sy'n destun prawf modd hy Lwfans Ceisio gwaith (seiliedig ar incwm), Cymhorthdal Incwm a Lwfans Cyflogaeth a Chymorth (sy'n gysylltiedig ag incwm).

## Is-denantiaid

Dyma bobl, ac eithrio plant sy'n oedolion, perthnasau neu ffrindiau, sydd yn gwneud taliad i chi am ystafell neu ystafelloedd ac nid oes tâl wedi ei gynnwys am brydau bwyd.

Nid oes didyniadau ar gyfer is-denantiaid; yn lle hynny, mae rhywfaint o'r rhent yr ydych yn ei dderbyn ganddynt bob wythnos yn cael ei ychwanegu at eich incwm. Mae'r £20.00 cyntaf o rent gan bob is-denant yn cael ei anwybyddu; mae gweddill y rhent wythnosol yn cael ei gyfrif fel incwm at ddibenion budd-daliadau. Er enghraifft, os ydych yn derbyn £50.00 yr wythnos o rhent, mae £30.00 yn cael ei gyfrif fel incwm wythnosol at ddibenion budd-daliadau.

Mae'r un rheolau hefyd yn berthnasol i fudd-daliadau sy'n destun prawf modd hy Lwfans Ceisio Gwaith (seiliedig ar incwm), Cymhorthdal Incwm a Lwfans Cyflogaeth a Chymorth (sy'n gysylltiedig ag incwm).

## Ein Manylion Cyswllt

Os oes angen mwy o help arnoch, cysylltwch â ni.

| | |
|---|---|
| **Dylai TRIGOLION YN NHORFAEN gysylltu ar**<br>**RHIF FFÔN:01495 766430 neu 01495 766570**<br>**E-BOST:** benefits@torfaen.gov.uk<br><br>**Minicom** i'r rheini sy'n drwm eu clyw neu'n fyddar. Y rhif yw **01495 767871** | **Dylai TRIGOLION YN SIR FYNWY gysylltu ar**<br>**RHIF FFÔN:01633 644644**<br>**E-BOST:** benefits@monmouthshire.gov.uk |
| **EIN CYFEIRIAD-** Y Gwasanaeth Budd-daliadau a Rennir, Llawr 3, Y Ganolfan Ddinesig, Pont-y-pŵl Torfaen NP4 6YB | |
| **YN BERSONOL yn unrhyw rhai o'n Siopau Un Stop, Canolfannau Cymunedol yn Sir Fynwy neu Ganolfannau Cwsmeriaid yn Nhorfaen.** | |

| | | |
|---|---|---|
| **Y FENNI**<br>Marchnad y Fenni **-**Cross St, Y Fenni NP7 5HD | **CAS-GWENT**<br>Llyfrgell Cas-gwent- Manor Way, Cas-gwent, NP16 5HZ | **CIL-Y-COED**<br>Llyfrgell Cil-y-coed - Woodstock Way, Cil-y-coed, NP26 5DB |
| **TREFYNWY**<br>Llyfrgell Trefynwy, Rolls Hall, Trefynwy, NP25 3BY | **BRYNBUGA**<br>Llyfrgell Brynbuga - 35 Stryd Maryport, NP15 1AE | |
| **PONT-Y-PŴL**<br>Llawr Un, Y Ganolfan Ddinesig, Pont-y-pŵl NP4 6YB | **CWMBRÂN**<br>Llyfrgell Cwmbrân, Tŷ Gwent, Sgwâr Gwent, Cwmbrân, NP44 1XQ | **BLAENAFON**<br>Canolfan Treftadaeth y Byd Blaenafon, Heol yr Eglwys, Blaenafon NP4 9AS |